


**SUT I GYSYLLTU**

| | | |
|---|---|---|
| Swyddfa Wybodaeth Tŷ'r Cyffredin | Ffôn: | 020 - 7219 4272 |
| Llundain SW1A 2TT | Ffacs: | 020 - 7219 5839 |
| | E-bost: | hcinfo@parliament.uk |
| Swyddfa Wybodaeth Tŷ'r Arglwyddi | Ffôn: | 020 - 7219 3107 |
| Llundain SW1A 0PW | Ffacs: | 020 - 7219 0620 |
| | E-bost: | hlinfo@parliament.uk |
| Siop Lyfrau Seneddol | Ffôn: | 020 - 7219 3890 |
| 12 Bridge Street | Ffacs: | 020 - 7219 3866 |
| Llundain SW1A 2JX | E-bost: | bookshop@parliament.uk |
| Uned Addysg y Senedd | Ffôn: | 020 - 7219 2105 |
| Tŷ'r Cyffredin | Ffacs: | 020 - 7219 0818 |
| Llundain SW1A 2TT | E-bost: | edunit@parliament.uk |
| (ar gyfer myfyrwyr ac athrawon) | | |
| Y Llyfrfa | Ffôn: | 0870 600 5522 |
| **Gwefan y Senedd:** | | **http://www.parliament.uk** |



# TŶ'R CYFFREDIN

***canllaw byr***



## *Neges gan y Llefarydd*




*Mae pobl sy'n ymweld â Thŷ'r Cyffredin yn aml yn dweud bod y lle yn llawer llai na'r disgwyl. Yn wir, dim ond 437 o'r 659 Aelod Seneddol sydd â lle i eistedd (gan gynnwys yr orielau ar yr ochr). Dyna pam y gwelwch chi nifer o ASau yn sefyll o gwmpas Cadair y Llefarydd weithiau yn ystod rhai dadleuon a datganiadau o bwys. Ond rwy'n credu bod maint y Siambr a'i chynllun yn cyfrannu at arbenigrwydd y dadleuon yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r dadleuon yn fywiog a grymus, eto'n agos-atoch ac yn aml yn eithaf sgyrsiol. Mae hi'n siambr ddadlau yng ngwir ystyr y gair, lle mae 'rhydd i bawb ei farn, ac i bob barn ei llafar' a dwy ochr pob dadl yn cael eu mynegi yn groyw ac angerddol. Rydym yn gwerthfawrogi grymuster y dadlau yn Nhŷ'r Cyffredin – mae'n adlewyrchu egwyddorion democrataidd y genedl.*

*Mae llawer o'r gwaith yn cael ei wneud mewn Pwyllgorau, yn hytrach nag yn y Siambr. Mae llawer o alwadau eraill ar amser yr ASau hefyd, wrth iddynt ymdrin â materion sy'n cael eu codi gan eu hetholwyr. Felly ar rai adegau o'r dydd, mae'n bosibl na fydd cynifer o Aelodau yn y Siambr ag y byddech yn disgwyl.*

*Boed chi'n gweithio yma yn San Steffan neu ddim ond yn ymweld am gyfnod byr, rwy'n credu y byddwch yn gallu synhwyro hanes hir y Senedd. Mae cyfundrefn seneddol y Deyrnas Unedig – sef Tŷ'r Cyffredin ynghyd â Thŷ'r Arglwyddi a'r Sofran – wedi esblygu dros y 700 mlynedd diwethaf. Ers dros naw can mlynedd, fe fu palas brenhinol yn San Steffan. Yn swyddogol, mae'r adeilad lle mae Tŷ'r Cyffredin erbyn hyn – sef Palas San Steffan – yn dal yn balas brenhinol. Codwyd yr adeilad presennol wedi i dân trychinebus yn 1834 ddifetha'r rhan fwyaf o'r hen adeiladau. Cafodd Palas presennol San Steffan ei gynllunio gan Charles Barry, gyda chymorth Augustus Welby Northmore Pugin. Mae'n adeilad hynod iawn a'i siâp arbennig yn adnabyddus ym mhedwar ban byd. Cafodd Siambr Tŷ'r Cyffredin ei hailgodi rhwng 1945 a 1950, wedi iddi gael ei dinistrio yn yr Ail Ryfel Byd.*

*Gobeithio y bydd y canllaw hwn yn helpu i gyfleu ychydig o'n traddodiad Seneddol a rhoi blas ar y gwaith sy'n digwydd yn Nhŷ'r Cyffredin.*



***Llefarydd Tŷ'r Cyffredin***

## *Tŷ'r Cyffredin – Beth mae Aelodau Seneddol yn ei wneud*

Mae gan Aelodau Seneddol (ASau) lawer o ddyletswyddau. Mae hyn yn golygu eu bod yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn eu Hetholaethau.



### *Cynrychioli buddiannau etholwyr*

Mae'r ASau yn treulio peth amser bob wythnos yn gweithio yn eu hetholaethau ac yn delio â phroblemau eu hetholwyr. Yn aml iawn bydd yr AS yn gallu cynghori sut i fynd i'r afael â rhyw fater penodol ac efallai y byddant yn ysgrifennu at yr awdurdod perthnasol neu at Weinidog ar ran un o'u hetholwyr. Gall ASau hefyd godi materion lleol neu bersonol mewn amryw o ffyrdd yn Nhŷ'r Cyffredin.

### *Deddfwriaeth*

Mae Tŷ'r Cyffredin yn archwilio a phasio cynigion ar gyfer deddfau newydd, ar ffurf Mesurau fel arfer. Mae'r rheiny'n cael eu cyflwyno gerbron y Senedd gan y Llywodraeth. Gall ASau unigol ar y meinciau cefn gyflwyno Mesurau hefyd, ond ychydig iawn o amser sydd ar gael i drafod "Mesurau Aelodau Preifat". Ni all y Llywodraeth ddeddfu ar ei phen ei hun - rhaid cael caniatâd Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar gyfer deddfau newydd (does gan Dŷ'r Arglwyddi ddim llais gyda mesurau ariannol). Fel arfer, bydd y Mesurau yn cael eu diwygio ar eu taith trwy'r ddau Dŷ. Bydd y Mesurau sy'n mynd trwy'r holl gamau angenrheidiol yn dod yn Ddeddfau Seneddol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith manwl o archwilio Mesurau yn Nhŷ'r Cyffredin yn digwydd mewn *Pwyllgorau Sefydlog.*

*LLWYBR MESURAU: Y PRIF GAMAU*

| | |
|---|---|
| *Darlleniad Cyntaf* | Cyflwyniad Ffurfiol |
| *Ail Ddarlleniad* | Dadleuon am yr egwyddor gyffredinol |
| *Pwyllgor* | Archwilio cymalau a diwygiadau a gynigir (mewn Pwyllgor Sefydlog fel arfer, er y bydd Mesurau cyfansoddiadol a Mesurau pwysig eraill yn cael eu pwyso a'u mesur yn y Siambr) |
| *Adroddiad* | Ystyried diwygiadau'r Pwyllgor a chyfle i wneud newidiadau eraill |
| *3ydd Darlleniad* | Y ddadl olaf ar y Mesur yn gyffredinol |

Mae'r rhan fwyaf o Fesurau yn mynd trwy'r un camau yn y ddau Dŷ – gallant ddechrau yn y naill neu'r llall – a rhaid cytuno ar y geiriad terfynol cyn y ceir *Cydsyniad y Frenhines*.

### *Archwilio'r Llywodraeth*

Un o brif swyddogaeth Tŷ'r Cyffredin yw archwilio polisïau a gweithredoedd y Llywodraeth. Y Llywodraeth sy'n rhedeg y wlad ond mae'r Llywodraeth yn atebol i'r Senedd. Pan fydd Gweinidogion y Llywodraeth yn gwneud datganiadau yn Nhŷ'r Cyffredin, byddant yn cael eu croesholi gan yr Wrthblaid a chan Aelodau unigol o bob plaid. Gall ASau hefyd holi Gweinidogion yn uniongyrchol, yn ystod y cyfnodau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer sesiynau cwestiynau yn Nhŷ'r Cyffredin. Bydd Gweinidogion yn derbyn cwestiynau ysgrifenedig hefyd a'r atebion yn cael eu cyhoeddi yn *Adroddiad Swyddogol* y trafodion.

## *Diwrnod gwaith cyffredin*

Pan fydd y Senedd yn eistedd, bydd Tŷ'r Cyffredin yn cwrdd fel arfer rhwng dydd Llun a dydd Iau, a bron bob dydd Gwener.

Mae yna drefn arbennig yn rheoli gwaith y Tŷ. Y Llywodraeth sy'n pennu'r busnes a threfn ei drafod, er bod pleidiau'r Wrthblaid ac Aelodau'r "meinciau cefn" yn cael rhai adegau neu ddiwrnodau penodol.


Yn y Siambr, mae busnes y dydd bob amser yn dechrau gyda gweddi. Yna daw unrhyw fusnes preifat, sy'n cael ei drin yn ffurfiol (heb ei drafod). Bydd prif fusnes y dydd yn dilyn.

### Cwestiynau Llafar

Rhwng dydd Llun a dydd Iau, bydd Gweinidogion o Adran neu Adrannau penodol yn y Llywodraeth yn ateb cwestiynau. Bydd y Prif Weinidog yn ateb cwestiynau unwaith yr wythnos, ar ddydd Mercher. Adeg y cwestiynau, bydd y Llefarydd yn galw enw'r unigolyn sydd â'r cwestiwn cyntaf yn y rhestr *Trefn y Busnes*. Gan fod y cwestiwn ei hun eisoes wedi'i argraffu, y cyfan y bydd yr Aelod yn ei ddweud fydd (er enghraifft) *"Number One"*. Bydd y Gweinidog perthnasol yn darllen ateb parod. Yna bydd cyfle i'r Aelod ofyn cwestiwn "atodol" a bydd y Gweinidog yn ateb eto. Yna bydd y Llefarydd yn galw ar Aelodau Seneddol eraill i ofyn cwestiynau atodol.

### Datganiadau gan Weinidogion

Ar ôl y sesiwn gwestiynau, os oes materion pwysig neu faterion brys yn codi, gall Gweinidogion gyflwyno datganiadau gerbron y Tŷ, Cwestiynau Rhybudd Preifat neu geisiadau am ddadl frys. Fel arfer mae *Datganiad Busnes* yn cael ei gyflwyno bob dydd Iau, yn amlinellu busnes y Tŷ am yr wythnos neu ddwy i ddod.



House of Commons

Tuesday 8th March 2005

**Summary Agenda**

| | |
|---|---|
| **11.30 a.m.** | Prayers. |
| **Afterwards** | Private Business (*without debate*). |
| | Oral Questions to the Secretary of State for Transport. |
| **12.20 p.m.** | Oral Questions to the Chancellor of the Duchy of Lancaster and to the Minister for the Cabinet Office. |
| **12.30 p.m.** | Urgent Questions, Ministerial Statements (if any). |
| **Afterwards** | Presentation of Bill (*without debate*). |
| | Royal Marriages (Freedom of Religion)—Motion for leave to introduce a Bill under the Ten minute rule (Mr Edward Leigh) (*for up to 20 minutes*). |
| | **Road Safety Bill: Report Stage and Third Reading** (*may continue until 7.00 p.m.*). |
| | Statutory Instruments (Motions for approval) (*without debate*). |
| **At the end of the sitting** | Adjournment Debate: Local government financial settlement for Southend (Mr David Amess) (*until 7.30 p.m. or for half an hour, whichever is later*). |

### Deddfwriaeth


Yn aml iawn, prif fusnes y dydd fydd trafod Mesur – ail ddarlleniad, cyfnod yr adroddiad neu'r trydydd darlleniad. Os bydd y Mesur wedi cyrraedd cam y pwyllgor ac yn cael ei ystyried gan yr holl ASau yn y Siambr, yn hytrach na chan Bwyllgor Sefydlog, yna bydd y Brysgyll yn cael ei osod yn y bracedi dan *Fwrdd y Tŷ* (mae'r Brysgyll fel arfer ar ben y Bwrdd).

### Dadleuon

Nid yw pob dadl yn ymwneud yn benodol â darnau o ddeddfwriaeth. Mae cyfle hefyd i drafod materion pwysig y dydd ac i ASau ar y meinciau cefn godi materion sydd o ddiddordeb lleol. Er enghraifft, ar derfyn trafodion pob diwrnod fe geir *Dadl ohirio* sy'n para hanner awr fel arfer. Yn gyffredinol mae'n trafod mater sy'n ymwneud ag etholaethau.

### Pwyllgorau

Mae Pwyllgorau Sefydlog a Phwyllgorau Dethol yn cael eu cynnal bron bob dydd. Mae'r rhan fwyaf yn rhai cyhoeddus a gall unrhyw un fynd yno i wrando.



Road Safety Bill

[AS AMENDED IN STANDING COMMITTEE A]

CONTENTS

Fixed penalties

2 Graduated fixed penalties
3 Graduated fixed penalty points
4 Giving of fixed penalty notices by vehicle examiners
5 Goods vehicles operator licensing
6 Public passenger vehicle licensing

Drink-driving etc.


11 Power to require specimens of breath at roadside or at hospital etc.
12 High risk offenders: medical enquiries following disqualification
13 Period of endorsement for failure to allow specimen to be tested
14 Alcohol ignition interlocks
15 Experimental period for section 14

Speeding

16 Penalty points
18 Exemptions from speed limits

## *Cyhoeddiadau Tŷ'r Cyffredin*

Mae cofnod o bopeth sy'n cael ei ddweud bob dydd yn cael ei gyhoeddi drannoeth yn yr Adroddiad Swyddogol. Enw arall arno yw *Hansard*.



House of Commons

Environment, Food and Rural Affairs Committee

**The Draft Animal Welfare Bill**

First Report of Session 2004–2005

Cyhoeddir adroddiadau a phapurau'r Pwyllgorau Dethol fel *Papurau Tŷ'r Cyffredin* a bydd Mesurau yn cael eu cyflwyno mewn cyfres wedi'u rhifo ar wahân.

Mae'r Llywodraeth yn cyflwyno papurau i'r Senedd ar ffurf *Papurau Gorchymyn* ("trwy orchymyn Ei Mawrhydi"). Cyhoeddir llawer o ddatganiadau polisi'r llywodraeth *(Papurau Gwyn)* ar ffurf Papurau Gorchymyn.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyhoeddiadau hyn, ynghyd â llawer mwy o wybodaeth am waith a threfn Tŷ'r Cyffredin, ar gael ar wefan y Senedd **(http://www.parliament.uk)**. Mae'n cynnwys *Bwletin Gwybodaeth Wythnosol* fel y gall darllenwyr gadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd yn y Senedd.




## *Sut i gysylltu ag AS*

Fel arfer, dim ond â'u hetholwyr eu hunain y bydd ASau yn delio. Felly os ydych yn awyddus i godi mater gydag AS, fe ddylech chi ysgrifennu at yr Aelod sy'n cynrychioli'r etholaeth lle'r ydych yn byw. Os na wyddoch pwy yw'r Aelod, gallwch holi yn eich llyfrgell leol, ffonio Swyddfa Wybodaeth Tŷ'r Cyffredin (020-7219 4272) neu ddefnyddio'r gwasanaeth dod o hyd i etholaethau ar y Rhyngrwyd **(www.locata.co.uk/commons)**. Yna gallwch gysylltu â swyddfa eich AS lleol yn Nhŷ'r Cyffredin – Tŷ'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA (ffôn: 020-7219 3000).

Yn eich llyfrgell leol fe ddylech chi gael gwybod ble mae eich AS yn cynnal "cymorthfeydd" yn yr etholaeth.



## *Pwyllgorau Dethol*

Ffordd arall y bydd gwaith y Llywodraeth yn cael ei archwilio yw trwy'r *Pwyllgorau Dethol* adrannol. Mae aelodau o bob plaid ar y pwyllgorau hyn, a byddant yn archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Adrannau'r Llywodraeth. Maent yn cynnal ymchwiliadau i bynciau sy'n dod o fewn eu cylch gwaith a derbyn tystiolaeth gan gyrff perthnasol. Bydd Gweinidogion yn aml yn ymddangos ger eu bron i ateb cwestiynau. Fel arfer bydd adroddiadau Pwyllgorau Dethol yn gwneud nifer o argymhellion sy'n galw am weithredu gan y Llywodraeth.



### *Cymeradwyo trethi a gwariant*

Er mwyn i'r Llywodraeth allu gweithredu ei pholisïau, rhaid iddi godi arian trwy drethi. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno ei chynlluniau trethu gerbron Tŷ'r Cyffredin bob blwyddyn, pan fydd Canghellor y Trysorlys yn cyflwyno datganiad "y Gyllideb". Rhaid i'r Tŷ gymeradwyo lefelau'r trethi sy'n cael eu cynnig a chymeradwyo cynlluniau gwariant y Llywodraeth hefyd.

### *Y drefn mewn dadleuon*

Mae'r Llefarydd yn eistedd yng *Nghadair y Llefarydd* wrth ben Bwrdd y Tŷ. Mae'r Llywodraeth yn eistedd i'r dde o'r Llefarydd, a'r Wrthblaid i'r chwith o'r Llefarydd. Gwaith y Llefarydd yw cadw trefn mewn dadl a galw ar ASau i siarad. Rhaid i ASau sy'n cael eu dewis annerch y Gadair, a rhaid cyfeirio at ASau eraill yn ôl eu hetholaethau neu Weinidogion yn ôl eu swydd. Felly bydd ASau yn cyfeirio at ei gilydd fel *"The Honourable Member for…"*, neu (at Gyfrin Gynghorwyr) *"The Right Honourable Member for…"*. Os bydd yr AS y cyfeirir ato neu ati yn dod o'r un blaid, yn gyffredinol fe fydd yn "*My Honourable Friend"*. Yn ôl traddodiad, dim ond Gweinidogion a llefarwyr ar ran yr Wrthblaid (meincwyr blaen) sy'n cael siarad o'r *Blwch Dogfennau*.

Bydd dadleuon yn Nhŷ'r Cyffredin bob amser yn seiliedig ar gynnig (*e.e. "That the… Order be approved"* neu *"That the Bill be read a second time"*). Ar ddiwedd y ddadl bydd y Gadair (y Llefarydd neu, os yw Mesur mewn Cam Pwyllgor, y Cadeirydd) yn gosod y cwestiwn. Gallai Pleidlais ddilyn – bydd yr ASau yn cerdded trwy un o ddwy lobi *"Ie"* neu *"Na"* wrth ymyl y Siambr. Bydd Cyfrifwyr yn cyhoeddi canlyniad y bleidlais i'r Llefarydd neu'r Cadeirydd.

